

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 51(1))

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL: RHAN 1

*Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65)*

- 1 Diwygier Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 fel a ganlyn.
- 2 Yn adran 2, mewnosoder y canlynol ar ddiwedd is-adran (1)—  
“or a Welsh improvement authority for the purposes of Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.

*Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (p. 5)*

- 3 Diwygier Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 fel a ganlyn.
- 4 Yn adran 139A(2)(b), mewnosoder y canlynol ar y diwedd—  
“or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.
- 5 Yn adran 139C(1)(b), mewnosoder y canlynol ar y diwedd—  
“or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.
- 6 Yn is-adran 139D(1), yn lle paragraff (ca) rhodder y canlynol—  
“(ca) a copy of a report has been sent to a local authority under section 22(3) of the Local Government (Wales) Measure 2009 and to the Secretary of State under section 22(5) of that Measure;”.

*Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 (p. 18)*

- 7 Diwygier Deddf y Comisiwn Archwilio 1998 fel a ganlyn.
- 8 Yn adran 47A (adroddiadau sy'n ymwneud â pherfformiad awdurdodau lleol yn Lloegr) hepgorer is-adran (5)(a).

*Deddf Llywodraeth Leol 1999 (p. 27)*

- 9 Diwygier Deddf Llywodraeth Leol 1999 fel a ganlyn.
- 10 Yn adran 1 (awdurdodau gwerth gorau) hepgorer is-adrannau (1)(k), (6) a (7).
- 11 Yn adran 2 (pŵer i estyn neu ddatgymhwysu: Ysgrifennydd Gwladol) hepgorer is-adran (5A).
- 12 Yn adran 3A (cyfraniad cynrychiolwyr lleol) hepgorer is-adran (3)(b).
- 13 Yn adran 10 (arolygiadau) hepgorer is-adran (5)(a).
- 14 Yn adran 10A (arolygiadau: Archwilydd Cyffredinol Cymru) hepgorer is-adrannau (1)(a) a (4)(a).
- 15 Yn adran 13A (adroddiadau am arolygiadau o dan adran 10A) hepgorer is-adran (5).
- 16 Yn adran 15 (pwerau Ysgrifennydd Gwladol) hepgorer is-adran (2)(aa).
- 17 Yn adran 16 (pŵer Ysgrifennydd Gwladol i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd) hepgorer is-adran (6)(b).

- 18 Yn adran 19(5) (contractau: eithrio ystyriaethau anfasnachol), mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (a)—  
 “(aa) a Welsh improvement authority for the purposes of the Local Government (Wales) Measure 2009.”
- 19 Yn adran 23(4)(za) (cyfrifon) hepgorer y geiriau “Welsh best value authorities or”.
- 20 Yn adran 25(2) (cydlynu arolygiadau etc) hepgorer baragraff (d).
- 21 Yn adran 28(2) (gorchmynion a rheoliadau) hepgorer “6, 7”.
- 22 Yn adran 29 (addasiadau ar gyfer Cymru)—  
 (a) yn is-adran (1A) hepgorer “3, 10A, 12A, 13A, 15,” a “23, 25 and 26”;  
 (b) hepgorer is-adrannau (2A), (4) a (6).

*Deddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26)*

- 23 Diwygier Deddf Llywodraeth Leol 2003 fel a ganlyn.
- 24 Yn adran 36(1) (grantiau mewn cysylltiad â dynodi ar gyfer rhagoriaeth mewn gwasanaeth), ar ôl “(best value duty)” mewnosoder “or to a Welsh improvement authority within the meaning of section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.
- 25 Yn adran 36A (grantiau gan Weinidogion y Goron mewn cysylltiad ag awdurdodau gwerth gorau etc)—  
 (a) yn is-adran (1) ar ôl “best value authorities” mewnosoder “or a Welsh improvement authority or Welsh improvement authorities”;  
 (b) yn is-adran (2)(b) yn lle'r geiriau “Welsh best value authority” rhodder “Welsh improvement authority”;  
 (c) yn is-adran (3) mewnosoder ar y diwedd “or a Welsh improvement authority”;  
 (d) yn is-adran (7) yn lle'r geiriau “Welsh best value authority” hyd at ddiwedd yr is-adran rhodder—  
 ““Welsh improvement authority” means an authority which is a Welsh improvement authority within the meaning of section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009.”.
- 26 Yn adran 36B (grantiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag awdurdodau gwerth gorau Cymru)—  
 (a) yn is-adran (1) yn lle'r geiriau “the economic” hyd at ddiwedd yr is-adran rhodder “compliance by a Welsh improvement authority or Welsh improvement authorities with the requirements of Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”;  
 (b) yn is-adran (2) ar ôl “best value authority” mewnosoder “or Welsh improvement authority”;  
 (c) yn is-adran (6) yn lle'r geiriau “Welsh best value authority” hyd at ddiwedd yr is-adran rhodder—  
 ““Welsh improvement authority” means an authority which is a Welsh improvement authority within the meaning of section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009.”.
- 27 Yn adran 93(9) (pŵer i godi tâl am wasanaethau dewisol) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

*Statws* This is the original version (as it was originally enacted).

- “(aa) a Welsh improvement authority;”.
- 28 Yn adran 95(7) (pŵer i fasnachu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau drwy gwmni), yn y diffiniad o “relevant authority” ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
- “(aa) a Welsh improvement authority;”.
- 29 Yn adran 97(11) (pŵer i addasu deddfiadau mewn cysylltiad â chodi tâl neu fasnachu), yn y diffiniad o “relevant authority” ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
- “(aa) a Welsh improvement authority;”.
- 30 Yn adran 101 (materion trosglwyddo staff: cyffredinol)—
- (a) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—
- “(5A) The duties under Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009 (local government improvement) have effect subject to subsections (1) and (3).”;
- (b) yn is-adran (7A) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
- “(aa) a Welsh improvement authority;”.
- 31 Yn adran 124 (dehongli cyffredinol) ar ôl y diffiniad o “valuation tribunal” mewnosoder—
- ““Welsh improvement authority” means an authority which is a Welsh improvement authority within the meaning of section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009.”.

*Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21)*

- 32 Diwygier adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (gwerth gorau) fel a ganlyn.
- 33 Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—
- “(3) Subsection (1) does not apply to a fire and rescue authority in Wales.
- (4) Sections 21, 22, 26 and 27 of the Local Government (Wales) Measure 2009 apply in relation to a fire and rescue authority in Wales' compliance with section 21(7) as they apply in relation to a Welsh improvement authority's compliance with the requirements of Part 1 of that Measure.
- (5) As applied by subsection (4), those sections have effect as if—
- (a) in section 21(1), paragraphs (a) and (b) and the word “if” preceding paragraph (a) were omitted;
- (b) sections 21(2)(b), (3), (5), (8) and (10) and 22(4) were omitted;
- (c) in section 22(1), for the words “a special inspection” there were substituted “an inspection under section 21”;
- (d) in section 22(2)(b), for the words “do either or both of the following” to the end there were substituted “make an order under section 22 of the Fire and Rescue Services Act 2004”;
- (e) in section 26(11), the words “or an inspection under section 21 as applied by section 24(4) of the Fire and Rescue Services Act 2004” were inserted at the end;

- (f) in section 27(1), the words “or inspections under section 21 as applied by section 24(4) of the Fire and Rescue Services Act 2004” were inserted at the end.”.

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23)*

- 34 Diwygier Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel a ganlyn.
- 35 Yn adran 41(1) (astudiaethau i wella darbodaeth etc mewn gwasanaethau) ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder—  
“or Welsh improvement authorities for the purposes of Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.
- 36 Yn adran 54 (cyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth)—  
(a) yn is-adran (1)(a) ar ôl y geiriau “the Local Government Act 1999 (c. 27)” mewnosoder “or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”;  
(b) yn is-adran (1)(b)—  
(i) ar ôl y gair “study” mewnosoder “assessment”;  
(ii) ar y diwedd mewnosoder “or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”;  
(c) yn is-adran (2)(b) ar ôl y geiriau “the Local Government Act 1999 (c. 27)” mewnosoder “or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009”.